# ATODIAD

## ENGHREIFFTIO SGILIAU HANFODOL CYMRU

Mae'r tablau canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau o gyd-destunau Pwnc y gellid cronni ynddynt dystiolaeth sgiliau allweddol sy'n digwydd yn naturiol.

**Noder:** Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno'r holl dystiolaeth yn y dull a nodir.

**Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn, gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio.**

## CYFATHREBU: LEFEL 2

Mae hyn yn golygu bod ymgeiswyr yn gallu dangos eu sgiliau wrth:

- siarad a gwrando
- darllen
- ysgrifennu

mewn cyd-destunau cyfarwydd a hygyrch sydd yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant, gwaith a swyddogaethau cymdeithasol.

Ar gyfer:

C2.1.3(b) – Rhaid iddynt ddefnyddio o leiaf un ddelwedd neu ddeunydd cefnogol arall eu cyflwyniad/sgwrs fer.

C2.3 – Rhaid i'r testunau y mae'r ymgeiswyr yn eu darllen gynnwys rhyngddynt, resymu a delweddau.

| **C2.1 SIARAD A GWRANDO** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **C2.1.1**<br>Deall ac ymateb i'r iaith a siaredir am ystod o dopigau ac mewn ystod o gyd-destunau. | Gallwch gael gwahanol fathau o dystiolaeth, yn cynnwys cofnod clywedol/gweledol a datganiadau tyst.<br><br>Gallwch gael tystiolaeth o gyd-destun trafodaeth ar gyfer C2.1.3(a) neu o sesiwn cwestiwn ac ateb yn dilyn y sgwrs/cyflwyniad byr yn C2.1.3(b). Er hynny, gallwch hefyd gael y dystiolaeth mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol mewn bywyd bob dydd ac yn y gwaith.<br><br>Rhaid i'r cyd-destunau gynnwys o leiaf un sgwrs neu drafodaeth wyneb yn wyneb. | Gall ymgeiswyr wneud cyflwyniad llafar unigol neu gyflwyniad pâr/grŵp ar thema sydd o ddiddordeb personol iddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| **C2.1.2**<br>Siarad i gyfathrebu:<br><br>• gwybodaeth<br>• teimladau<br>• barn<br>• cwestiynau<br>• cyfarwyddiadau<br><br>am dopigau cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan ddefnyddio iaith a chyfathrebu di-eiriau priodol, ac mewn ystod o gyd-destunau. | Gallwch gael gwahanol fathau o dystiolaeth, yn cynnwys cofnod clywedol/gweledol a datganiadau tyst.<br><br>Gallwch gael tystiolaeth o gyd-destun trafodaeth ar gyfer C2.1.3(a) neu o sesiwn cwestiwn ac ateb yn dilyn y sgwrs/cyflwyniad byr yn C2.1.3(b). Er hynny, gallwch hefyd gael y dystiolaeth mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol mewn bywyd bob dydd ac yn y gwaith.<br><br>Rhaid i'r cyd-destunau gynnwys o leiaf un sgwrs neu drafodaeth wyneb yn wyneb. | Gall ymgeiswyr gyfleu gwybodaeth, mynegi barn a chwestiynu eraill drwy wneud gwaith llafar unigol neu waith pâr/grŵp ar thema megis Yr Amgylchedd neu Byd Gwaith. |
| **C2.1.3**<br>(a) Cymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol gyda dau neu fwy o bobl eraill.<br><br>(b) Rhoi cyflwyniad/sgwrs am o leiaf pedwar munud. | Rhaid cael tystiolaeth o ddwy drafodaeth o leiaf. Rhaid i o leiaf un o'r rhain fod wyneb yn wyneb.<br><br>Ni fydd y 'ddau neu fwy o bobl eraill' yn cynnwys yr aseswr.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth ar gyfer C2.1.3(a) a C2.1.3.(b) gynnwys nodiadau'r ymgeisydd wrth iddo baratoi ar gyfer y drafodaeth/sgwrs/cyflwyniad.<br><br>Rhaid cael tystiolaeth ychwanegol a all fod ar ffurf:<br>• cofnod gweledol/clywadwy o'r drafodaeth/sgwrs/cyflwyniad a/neu<br>• datganiadau tyst.<br><br>Gellir defnyddio nodiadau byr i brocio'r cof yn y sgwrs/cyflwyniad, ond ni chaniateir i'r ymgeisydd eu darllen yn uchel.<br><br>Rhaid i dystiolaeth y sgwrs/cyflwyniad gynnwys o leiaf un ddelwedd neu ddeunydd cefnogol arall.<br><br>Rhaid i'r aseswyr edrych am y canlynol:<br>• mynegiant clir<br>• tystiolaeth bod y sgwrs/cyflwyniad wedi ei strwythuro'n dda, yn cadw at y pwynt, yn rhoi darlun clir o'r prif bwyntiau ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi'r prif bwyntiau<br>• tystiolaeth bod y gwrandawyr wedi dilyn y sgwrs/cyflwyniad heb fawr drafferth. | Gall ymgeiswyr wneud sgwrs sefyllfa mewn pâr/grŵp ar thema megis Yr Ardal neu siarad am Ddiddordebau. |

| **C2.2 DARLLEN** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **C2.2.1**<br><br>Darllen, deall a chrynhoi gwybodaeth o ddau destun o leiaf ar yr un pwnc.<br><br>Rhaid i bob testun gynnwys o leiaf 500 o eiriau.<br><br>Rhaid i o leiaf un testun gynnwys rhesymeg ac o leiaf un testun gynnwys delwedd**.** | Rhaid i'r testunau fod o wahanol fathau.<br><br>Gall y testunau gael eu cynnwys ar restr ddarllen neu gallan nhw gael eu canfod gan yr ymgeisydd, yn dibynnu ar gyd-destun y gwaith.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd weithio'n annibynnol i ddewis deunydd o'r testunau er mwyn ateb pwrpas y dasg.<br><br>Rhaid peidio â rhoi cyfeiriadau tudalennau manwl i'r ymgeisydd.<br><br>Gall llawer o'r dystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi arddangos y sgiliau gofynnol fod ymhlyg yn y crynodeb gafodd ei wneud ar gyfer C2.3.1 a/neu C2.1.3(b) ond rhaid cydnabod hyn yn y portffolio.<br><br>Gall y dystiolaeth gael ei chefnogi gan lungopïau o destunau a/neu ddelweddau wedi eu hanodi gan yr ymgeisydd. | Gall ymgeiswyr ddethol a chrynhoi gwybodaeth o ddwy ffynhonnell wahanol yn yr iaith darged ar thema sydd o ddiddordeb iddynt. |

| **C2.3 YSGRIFENNU** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **C2.3.1**<br>Ysgrifennu dau fath gwahanol o destunau, y naill a'r llall yn rhoi gwybodaeth wahanol i gynulleidfaoedd gwahanol mewn ffurfiau priodol a chan ddefnyddio iaith sy'n addas i'ch pwrpas a'ch cynulleidfa.<br><br>Rhaid i un testun gynnwys o leiaf 500 o eiriau. | Rhaid arddangos tystiolaeth o'r sgiliau angenrheidiol yn y ddau destun.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth ar gyfer pob testun gynnwys nodiadau cynllunio ac o leiaf un drafft â thystiolaeth o wirio.<br><br>Yn y gwaith terfynol, rhaid i'r brawddegau gael eu ffurfio'n gywir â'r atalnodi, y sillafu, y treiglo a'r gramadeg yn gywir.<br><br>Rhaid i'r paragraffu fod yn briodol.<br><br>Mae modd cynhyrchu'r dystiolaeth yn electronig ond rhaid dilysu mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw. | Gall ymgeiswyr ysgrifennu llythyr, erthygl, negeseuon e-bost neu cyfarwyddyd yn yr iaith darged ar thema sydd o ddiddordeb iddynt. |

## CYMHWYSO RHIF: LEFEL 2

Mae hyn yn golygu bod ymgeiswyr yn gallu dangos eu sgiliau wrth:

- ddeall data rhifiadol
- gwneud cyfrifiadau
- dehongli canlyniadau a chyflwyno canfyddiadau

Rhaid i'r ymgeiswyr wneud o leiaf un gweithgaredd sy'n dangos eu sgiliau ym mhob un o'r tair cydran (Rh2.1, Rh2.2, Rh2.3).

Os bydd rhaid gwneud gweithgareddau ychwanegol i gwrdd â holl ofynion Rh2.2 (a, b, c, ch), bydd rhaid i bob gweithgaredd gynnwys tasgau yn ymwneud ag un ai:

Rh2.1 a Rh2.2
**Neu**
Rh2.2 and Rh2.3

Dim ond y gofyniad/gofynion coll sydd angen eu trafod.

| **Rh2.1 DEALL DATA RHIFOL** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **Rh2.1.1**<br>Helpu i ganfod a disgrifio o leiaf un broblem neu dasg ymarferol yn ymwneud ag ystod o ddata rhifiadol a gwybodaeth rifiadol. | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd wedi chwarae rhan weithredol o safbwynt canfod a disgrifio'r broblem neu'r dasg mae wedi cael gwybodaeth amdani neu wedi'i dewis.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd (mewn llawysgrifen neu'n electronig). | Gall ymgesiwyr ddarganfod gwybodaeth ar gyfer gwneud tasg ymchwil ar thema megis Yr Ardal neu'r Defnydd o Gymraeg mewn ardal arbennig. |
| Rh2.1.2<br>Cadarnhau gyda pherson priodol sut yr ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r dasg. | Rhaid i'r dystiolaeth o gynllunio gynnwys:<br>• manylion am sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cael data a gwybodaeth sy'n berthnasol<br>• dilyniant clir o dasgau sy'n dangos sut mae'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth honno.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd (mewn llawysgrifen neu'n electronig). | Gall ymgeiswyr gynllunio gyda phartner neu mewn grŵp sut maen nhw'n dod i gasgliad ar ôl gwneud gwaith ymchwil ar thema sydd o ddiddordeb iddynt. |
| **Rh2.1.3**<br>Casglu data a gwybodaeth rifiadol perthnasol o ystod o ffynonellau i ateb pwrpas eich tasg.<br><br>Mae'n rhaid i'ch ffynonellau gynnwys o leiaf <u>ddau</u> dabl, siart, graff neu ddiagram. | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd yn deall sut mae'r data/gwybodaeth a gaiff yn ateb pwrpas ei dasg.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys:<br>• data/gwybodaeth a gasglwyd o dair ffynhonnell o leiaf.<br>• rhaid i o leiaf un ffynhonnell ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gasglu a chofnodi data/gwybodaeth.<br>• copïau o ddeunydd y ffynonellau<br>• manylion y safle/safleoedd arsylwi/mesur<br>• cofnodion o'r data/gwybodaeth a gafwyd. | Gall ymgeiswyr roi tystiolaeth gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol wrth wneud cyflwyniad unigol neu waith pâr/grŵp. |

| **N2.2 GWNEUD CYFRIFIADAU** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **Rh2.2.1**<br>Defnyddio dulliau priodol i gael y canlyniadau sydd eu hangen arnoch chi ac esbonio'r dulliau ddefnyddioch chi. | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd yn medru:<br><br>• canfod, defnyddio ac esbonio dulliau priodol i gael y canlyniadau sydd eu hangen<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd (mewn llawysgrifen neu'n electronig). | Gall ymgeiswyr ddadansoddi eu canfyddiadau ac esbonio'r canlyniadau wrth wneud cyflwyniad unigol neu waith pâr/grŵp ar lafar neu'n ysgrifenedig. |
| **Rh2.2.2**<br>Defnyddio'r data a'r wybodaeth rydych chi wedi eu cael i wneud cyfrifiadau sy'n berthnasol i'ch tasg yn ymwneud â:<br><br>(a) niferoedd neu feintiau<br>(b) graddfeydd neu gyfrannedd<br>(c) trafod ystadegau<br>(d) defnyddio fformiwlâu. | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd:<br><br>• wedi defnyddio data a gwybodaeth o Rh2.2.1<br>• yn deall pwrpas a pherthnasedd ei gyfrifiadau.<br><br>Ar y cyfan, rhaid i'r dystiolaeth o gyfrifiadau gynnwys o leiaf un enghraifft o bob categori a rhaid iddi ddangos sut mae'r ymgeisydd wedi gwirio'i ddulliau a'i gyfrifiadau.<br><br>Rhaid i gategori (c) gynnwys cymhariaeth o setiau o ddata.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth ddangos ac esbonio dulliau a nodi lefelau cywirdeb.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys cofnodion o sut mae'r ymgeisydd wedi gwirio:<br><br>• eich dulliau a'ch cyfrifiadau<br>• bod y canlyniadau'n gwneud synnwyr mewn perthynas â phwrpas y dasg.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd (mewn llawysgrifen neu'n electronig). | Gall ymgeiswyr ddefnyddio'r wybodaeth a ddarganfyddwyd wrth wneud cyflwyniad unigol neu waith pâr/grŵp ar lafar neu'n ysgrifenedig gan ddefnyddio graffiau ac ystadegau. |

| **N2.3 DEHONGLI CANLYNIADAU A CHYFLWYNO CANFYDDIADAU** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **Rh2.3.1**<br>Dewis dwy ffordd wahanol o gyflwyno'ch canlyniadau gan ddefnyddio siartiau neu raffiau, a thablau neu ddiagramau sy'n briodol ar gyfer eich cynulleidfa**.** | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd yn medru:<br>• dewis sut i gyflwyno'i ganlyniadau gan ddefnyddio dwy ffordd briodol (h.y. siartiau a/neu raffiau, a thablau a/neu ddiagramau)<br>• esbonio pam mae'r ffyrdd hynny'n briodol ar gyfer ei gynulleidfa.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd (mewn llawysgrifen neu'n electronig). | Gall ymgeiswyr gyflwyno eu canfyddiadau drwy roi cyflwyniad ar lafar neu'n ysgrifenedig. |
| **Rh2.3.2**<br>Cyflwyno ac egluro'ch dulliau a'ch canfyddiadau gan esbonio sut maen nhw'n ateb pwrpas eich tasg a sut maen nhw'n briodol i'ch cynulleidfa. | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd yn medru:<br>• cyflwyno'i ddulliau a'i ganfyddiadau'n effeithiol<br>• esbonio'r dulliau mae wedi'u defnyddio<br>• disgrifio ac esbonio beth mae canlyniadau ei gyfrifiadau'n ei olygu mewn perthynas â'r broblem neu'r dasg mae wedi mynd i'r afael â hi, gan bwysleisio'r pwyntiau allweddol.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd (mewn llawysgrifen neu'n electronig).<br><br>P'un a ddefnyddir TGCh ai peidio i greu graffigwaith, rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd wedi gwirio cywirdeb y graffigwaith a'i fod yn medru esbonio'r graffigwaith yn llawn.<br>Gall tystiolaeth o'r ddealltwriaeth hon fod ar ffurf datganiadau tyst. | Gall ymgeiswyr egluro eu canfyddiadau drwy wneud cyflwyniad llafar unigol neu waith pâr/grŵp. |

# TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU: LEFEL 2

Mae hyn yn golygu bod ymgeiswyr yn gallu:

- Defnyddio systemau TGCh
- Darganfod, dewis a chyfnewid gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh
- Datblygu a chyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh

mewn sefyllfaoedd cyfarwydd sydd yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant, gwaith a swyddogaethau cymdeithasol.

Rhaid gwneud o leiaf ddau weithgaredd sydd, at ei gilydd yn:

- Cynnwys o leiaf un ffynhonnell wybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh ac o leiaf un ffynhonnell nad yw'n seiliedig ar TGCh
- Defnyddio ffynonellau gwybodaeth wahanol ar gyfer pob gweithgaredd
- Defnyddio o leiaf un enghraifft o destun, un enghraifft o ddelwedd ac un enghraifft o rif
- Cyflwyno tystiolaeth o ddefnyddio e-bost yn bwrpasol

| ICT2.1 DEFNYDDIO SYSTEMAU TGCH | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **TGCh2.1.1**<br>Disgrifio sut y byddwch yn mynd ati i wneud gweithgaredd sy'n gofyn am ddefnyddio TGCh. | Ar gyfer pob gweithgaredd, rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd wedi chwarae rôl weithredol o safbwynt disgrifio sut bydd yn mynd ati i wneud y gweithgaredd, hyd yn oed os yw'n cael cymorth gan berson priodol.<br><br>Gellir cyflwyno'r dystiolaeth mewn amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys tystiolaeth mewn llawysgrifen, tystiolaeth wedi'i chynhyrchu'n electronig, tystiolaeth lafar neu dystiolaeth weledol. Er enghraifft, gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf nodiadau'r ymgeisydd, neu nodiadau'r aseswr ynghylch gwaith arsylwi neu sesiwn holi ac ateb.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys y briff neu aseiniad a roddwyd i'r ymgeisydd. | Gall ymgeiswyr ddefnyddio TGCh wrth wneud gwaith ymchwil ar gyfer tasgau llafar neu ysgrifenedig. |
| **TGCh2.1.2**<br>Defnyddio TGCh yn annibynnol i ymgymryd â'r dasg. | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos sut mae'r ymgeisydd wedi cyflawni'r gweithgaredd yn annibynnol ac yn effeithiol, gan ofyn am help neu gyngor pan fo hynny'n briodol.<br><br>Gallai'r dystiolaeth gynnwys:<br>• log neu ddogfen gofnodi debyg a gwblhawyd gan yr ymgeisydd ac sy'n cynnwys cofnodion y cadarnhawyd eu bod yn gywir ac yn ddilys, gan oruchwyliwr neu bobl eraill y bu'r ymgeisydd yn gweithio gyda nhw • datganiadau tyst neu gofnodion arsylwi gan yr aseswr neu berson priodol arall; rhaid i'r rhain gael eu dilysu gan yr aseswr<br>• nodiadau ynghylch cwestiynau a ofynnwyd gan aseswr, â chofnodion o arsylwadau neu atebion<br>• sgrin luniau â nodiadau<br>• clip sain/clip gweledol. | Gall ymgeiswyr ddefnyddio TGCh yn annibynnol wrth wneud gwaith ymchwil ar gyfer gwaith unigol neu waith pâr/grŵp. |

| | | |
|---|---|---|
| **TGCh2.1.3**<br>Dilyn arferion gweithio saff, iach a diogel bob amser. | Rhaid cynnwys y dystiolaeth mewn mannau perthnasol yng ngwaith yr ymgeisydd. Gellir ychwanegu unrhyw un o'r canlynol at y dystiolaeth:<br><br>• log ar wahân a lenwyd gan yr ymgeisydd ac sy'n cynnwys cofnodion y cadarnhawyd eu bod yn gywir ac yn ddilys, gan oruchwyliwr neu bobl eraill y bu'r ymgeisydd yn gweithio gyda nhw<br>• datganiadau tyst neu gofnodion arsylwi gan yr aseswr neu berson priodol arall; rhaid i'r rhain gael eu dilysu gan yr aseswr<br>• nodiadau ynghylch cwestiynau a ofynnwyd gan aseswr, â chofnodiono arsylwadau neu atebion<br>• sgrin luniau â nodiadau<br>• clip sain/clip gweledol. | Gall ymgeiswyr ddefnyddio TGCh wrth baratoi ar gyfer gwneud cyflwyniad unigol neu waith pâr/grŵp. |

| **TGCH2.2 DARGANFOD, DEWIS A CHYFNEWID GWYBODAETH** | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **TGCh2.2.1**<br>Darganfod, dewis a defnyddio ffynonellau gwahanol o wybodaeth briodol sy'n seiliedig ar TGCh ac nad yw'n seiliedig ar TGCh. | Rhaid i'r dystiolaeth gael ei chofnodi mewn dogfen neu ddogfennau priodol. Rhaid iddi ddangos sut llwyddodd yr ymgeisydd i ddarganfod, dewis a defnyddio ffynonellau, a rhaid iddi gynnwys esboniad ynghylch pam roedd y ffynonellau a ddewiswyd yn briodol i'r dasg. | Gall ymgesiwyr ddefnyddio TGCh wrth ddarganfod gwybodaeth ar gyfer gwneud cyflwyniad llafar unigol neu waith pâr/grŵp. |
| **TGCh2.2.2**<br>Chwilio am wybodaeth berthnasol sy'n seiliedig ar TGCh a nad yw'n seiliedig ar TGCh, ei dewis a'i chael. | Rhaid i'r dystiolaeth gael ei chofnodi mewn dogfen briodol a lenwyd gan yr ymgeisydd ac sy'n cynnwys cofnodion y cadarnhawyd eu bod yn gywir ac yn ddilys, e.e. gan oruchwyliwr neu bobl eraill y bu'r ymgeisydd yn gweithio gyda nhw. Rhaid nodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ynghyd â chwmpas a natur y chwiliadau a'u canlyniadau.<br><br>Gellir ychwanegu unrhyw un o'r canlynol at y dystiolaeth:<br>• datganiadau tyst neu gofnodion arsylwi gan yr aseswr neu berson priodol arall; rhaid i'r rhain gael eu dilysu gan yr aseswr<br>• nodiadau ynghylch cwestiynau a ofynnwyd gan aseswr, â chofnodion o arsylwadau neu atebion<br>• sgrin luniau â nodiadau. | Gall ymgesiwyr ddefnyddio TGCh wrth chwilio am wybodaeth ar gyfer gwneud cyflwyniad unigol neu waith pâr/grŵp. |
| **TGCh2.2.3**<br>Mewnbynnu, cadw, cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh i ateb eich pwrpas. | Rhaid i'r dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth ynghylch y defnydd o e-bost, fod ar ffurf dogfen gofnodi ynghyd ag allbrintiau a/neu sgrin luniau â nodiadau, a ategwyd gan nodiadau a wnaed gan yr ymgeisydd a/neu dyst ac a ddilyswyd gan aseswr. | Gall ymgeiswyr ddefnyddio TGCh wrth baratoi gwaith ysgrifennu gan ddefnyddio ffurfiau megis e-bost a blog. |

| TGCH2.3 DATBLYGU A CHYFLWYNO GWYBODAETH | | |
|---|---|---|
| **Rhaid i'r Ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod yn gallu:** | **Gofynion tystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| **TGCh2.3.1**<br>Mewnbynnu, trefnu, datblygu, fformadu a chyfuno gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh a gwybodaeth nad yw'n seiliedig ar TGCh i fod yn addas i'ch cynnwys a'ch pwrpas ar ffurf:<br>a) testun<br>b) tablau<br>c) delweddau<br>ch) rhifau<br>d) cofnodion | Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y broses a ddefnyddiodd yr ymgeisydd i fewnbynnu a datblygu gwybodaeth i fod yn addas i'w bwrpas. Rhaid i'r dystiolaeth hon fod ar ffurf copïau drafft â nodiadau gan yr ymgeisydd neu nodiadau gan yr aseswr ynghylch atebion yr ymgeisydd i gwestiynau.<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod yr ymgeisydd wedi datblygu'r modd y mae'n cyflwyno ei waith, a rhaid iddi allu dangos bod y dull cyflwyno'n addas i'r pwrpas, y gynulleidfa a'r mathau o wybodaeth a ddefnyddir.<br><br>Rhaid i'r gwaith terfynol fod yn gywir, yn glir ac wedi'i gadw'n briodol. Rhaid i'r graffiau a'r siartiau fod yn addas i'w pwrpas a bod wedi'u labelu'n gywir. | Gall ymgeiswyr gyfuno gwybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh wrth baratoi ar gyfer gwneud gwaith llafar ac ysgrifennu ar thema sydd o ddiddordeb iddynt. |
| **TGCh2.3.2**<br>Cyflwyno gwybodaeth wedi ei chyfuno gan ddefnyddio fformatau a ffurfiau cyson sy'n briodol i'ch pwrpas a'ch cynulleidfa gan ddefnyddio TGCh, ac adolygu eich gwaith. | Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys y gwaith gorffenedig, ynghyd â thystiolaeth i ddangos bod yr ymgeisydd wedi adolygu'r broses ddatblygu a'r cynnyrch terfynol.<br><br>Gallai'r dystiolaeth o waith adolygu fod ar ffurf nodiadau a ysgrifennwyd gan yr ymgeisydd, neu nodiadau ynghylch atebion yr ymgeisydd i gwestiynau a ofynnwyd gan aseswr. | Gall ymgeiswyr ddefnyddio TGCh wrth baratoi at gyfer gwneud cyflwyniad llafar unigol neu waith pâr/grŵp. |

## ENGHREIFFTIO SGILIAU ALLWEDDOL EHANGACH

Mae'r tablau canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau o gyd-destunau Pwnc y gellid cronni ynddynt dystiolaeth sgiliau allweddol sy'n digwydd yn naturiol.

**Noder: Os yw cynhyrchu rhai mathau o dystiolaeth yn creu anawsterau oherwydd anabledd neu ffactorau eraill, gall yr ymgeisydd ddefnyddio ffyrdd eraill o ddangos cyrhaeddiad. Dylai'r ymgeisydd ofyn i'r tiwtor neu'r goruchwyliwr am wybodaeth bellach.**

## GWEITHIO GYDAG ERAILL: LEFEL 2

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu o leiaf un enghraifft o fodloni'r safonau ar gyfer GE2.1, GE2.2 a GE2.3, gan gynnwys gwaith mewn sefyllfa grŵp neu dîm. Rhaid iddynt wirio cynnydd ar ddau achlysur (ar gyfer GE2.2).

| **GE2.1 CYNLLUNIO GWAITH GYDAG ERAILL** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Cynllunio gwaith gydag eraill. | Nodi'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni gyda'i gilydd.<br><br>Rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn nodi beth sy'n rhaid ei wneud a chyfrifoldebau unigol.<br><br>Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer cydweithio. | Datganiad ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r hyn y mae'r aelodau tîm yn ceisio'i gyflawni.<br>Cofnodion cyfarfodydd.<br>Cofnod o drafodaeth yn nodi pa wybodaeth a rannwyd a chyfrifoldeb pob aelod o'r tîm.<br>Datganiad ymgeisydd yn dangos pa gymorth a chyngor a roddir. | Gall ymgeiswyr gynllunio gwaith gydag eraill wrth baratoi ar gyfer gwaith llafar pâr/grŵp. |

| **GE2.2 GWEITHIO'N GYDWEITHREDOL AT YR AMCANION Y CYTUNWYD ARNYNT** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Cydweithio er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd. | Trefnu ac ymgymryd â thasgau'n ddiogel gan ddefnyddio dulliau priodol, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Cefnogi dulliau cydweithredol o weithio er mwyn helpu i archifo'r amcanion cydweithio.<br><br>Gwirio cynnydd, gan geisio cyngor person priodol pan fydd angen. | Cofnod/dyddiadur/llyfr gwaith yn nodi sut y cafodd adnoddau eu nodi a'u caffael, gan gynnwys ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch.<br>Datganiadau gan aelodau tîm i sicrhau y bu gweithio gydag eraill yn ddidrafferth.<br>Cofnod cyngor ymgeisydd wedi'i geisio, gan bwy a pham y ceisiwyd ef.<br>Cofnod gan yr ymgeisydd yn manylu'r holl wiriadau cynnydd yn glir. | Gall ymgeiswyr gynllunio gwaith gydag eraill wrth baratoi ar gyfer gwaith llafar pâr/grŵp. |

| **GE2.3 ADOLYGU GWAITH GYDAG ERAILL A CHYTUNO AR FFYRDD O WELLA** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Adolygu eu cyfraniadau a chytuno ar ffyrdd o wella gwaith gydag eraill. | Rhannu gwybodaeth berthnasol am yr hyn a aeth yn dda neu beidio wrth weithio gydag eraill.<br><br>Nodi eu rôl wrth helpu i gyflawni pethau gyda'i gilydd.<br><br>Cytuno ar ffyrdd o wella eu gwaith gydag eraill. | Cofnodion cyfarfodydd y grŵp yn dangos tystiolaeth o gytundeb rhwng aelodau'r tîm ar ffyrdd o wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd.<br>Dadansoddiad o'r hyn a wnaed i gynorthwyo'r broses o weithio gydag eraill. | Gall ymgeiswyr adolygu eu cyfraniadau a chytuno ar ffyrdd o wella gwaith gydag eraill wrth baratoi ar gyfer gwaith llafar pâr/grŵp. |

## GWELLA EU DYSGU A'U PERFFORMIAD EU HUNAIN: LEFEL 2

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu o leiaf un enghraifft o fodloni'r safon ar gyfer GDP2.1, GDP2.2 a GDP2.3 (dylai'r enghraifft gwmpasu o leiaf dri tharged). Ar y cyfan, rhaid i ymgeiswyr ddangos y gallant ddefnyddio o leiaf ddwy ffordd wahanol o ddysgu i wella eu perfformiad.

| **GDP2.1 GOSOD TARGEDAU GAN DDEFNYDDIO GWYBODAETH GAN BOBL BRIODOL** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Helpu i osod targedau gyda pherson priodol a chynllunio sut y caiff y rhain eu bodloni. | Darparu gwybodaeth i helpu i bennu targedau realistig ar gyfer yr hyn y maent am ei gyflawni.<br><br>Nodi pwyntiau gweithredu clir ar gyfer pob targed a sut y byddant yn rheoli eu hamser.<br><br>Nodi sut i gael y cymorth angenrheidiol a'r trefniadau ar gyfer adolygu eu cynnydd. | Datganiad ymgeisydd yn cyfeirio at lefel wybodaeth a pherfformiad cyfredol yr ymgeisydd a'r hyn y maent am ei gyflawni.<br><br>Cynllun gweithredu manwl ar gyfer pob targed, gan ddangos camau gweithredu, terfynau amser a sut y bydd yr ymgeisydd yn rheoli ei amser yn glir.<br>Datganiad ymgeisydd yn dangos ei fod yn gwybod ble, pryd a chan bwy y gellir cael cefnogaeth ac adnoddau.<br><br>Datganiad ymgeisydd yn dangos ei fod yn deall trefniadau adolygiadau cynnydd yn llwyr.<br>Rhaid i'r ymgeisydd wybod pwy fydd yn cynnal yr adolygiad, ffurf yr adolygiad, a ble a phryd y bydd yn digwydd. | Gall ymgeiswyr ail-ddrafftio gwaith i wella perfformiad ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>Gwella'r ystod o batrymau ac amser y ferf. |

| **GDP2.2 CYMRYD CYFRIFOLDEB AM RAI PENDERFYNIADAU AM EU DYSGU** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Cymryd cyfrifoldeb am rai penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu, gan ddefnyddio eu cynllun i'w helpu i gyrraedd targedau a gwella eu perfformiad. | Defnyddio eu pwyntiau gweithredu i'w helpu i reoli eu hamser yn dda, gan adolygu eu cynllun pan fydd angen.<br><br>Dewis ffyrdd o ddysgu i wella eu perfformiad wrth weithio am gyfnodau byr heb oruchwyliaeth agos.<br><br>Nodi pan fydd angen cefnogaeth, a'i defnyddio'n effeithiol i helpu i gyrraedd targedau. | Cofnod neu lyfr gwaith ymgeisydd yn dangos sut a phryd yr aed i'r afael â phob pwynt yn y cynllun gweithredu.<br>Cofnod ar y cynllun gweithredu o ba mor agos y cadwodd yr ymgeisydd at yr amseroedd a gynlluniwyd ganddynt.<br><br>Cofnod ar y cynllun gweithredu yn dangos pa ddiwygiadau yr ystyriodd yr ymgeisydd yn angenrheidiol, pam y gwnaed hwy a pha mor effeithiol oedd y rhain.<br><br>Cofnod neu lyfr gwaith dysgu, gan ddangos yn glir sut y cynhaliwyd y dysgu a pham y defnyddiwyd gwahanol ffyrdd o ddysgu ar adegau gwahanol.<br>Cyfeiriad yn y cofnod neu lyfr gwaith dysgu i bryd a pham y nododd yr ymgeisydd bod angen cefnogaeth arno.<br><br>Datganiad ymgeisydd ar ddefnyddio'r gefnogaeth yn effeithiol. | Gall ymgeiswyr ddangos sut maen nhw'n mynd i wella ar eu perfformiad. |

| GDP2.3 ADOLYGU CYNNYDD A DARPARU TYSTIOLAETH O'U CYFLAWNIADAU | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Adolygu cynnydd gyda pherson priodol a darparu tystiolaeth o'u cyflawniadau. | Nodi'r hyn y maent wedi'i ddysgu, a sut y maent wedi defnyddio eu dysgu mewn tasg arall.<br><br>Nodi'r targedau y maent wedi'u cyrraedd a thystiolaeth o'u cyflawniadau.<br><br>Nodi ffyrdd y maent yn dysgu orau a sut i wella'u perfformiad. | Datganiad ymgeisydd yn dangos yn glir yr hyn a ddysgwyd. Croeswiriad gan yr ymgeisydd o'r targedau a nodwyd yn y cynllun gweithredu a'r rhai a fodlonwyd. Gall hwn gael ei ysgrifennu gan yr ymgeisydd, ei gofnodi gan yr aseswr neu ei dapio. Gallai fod ar ffurf blychau ticio gyda sylwadau cryno.<br><br>Datganiad ymgeisydd yn nodi sut y maent yn dysgu orau e.e. drwy wneud, drwy astudio, gweithio ar eu pen eu hun etc. Awgrymiadau gan yr ymgeisydd am sut y gallent wella eu perfformiad. | Gall ymgeiswyr gymharu’r gwaith terfynol a wnaed gyda’r drafft cyntaf. |

## DATRYS PROBLEMAU: LEFEL 2

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu o leiaf un enghraifft o fodloni'r safon ar gyfer DP2.1, DP2.2 a DP2.3. Dylai'r enghraifft gynnwys o leiaf dair ffordd wahanol o fynd i'r afael â phroblem (ar gyfer DP2.1).

| **DP2.1 NODI PROBLEM A NODI FFYRDD O FYND I'R AFAEL Â HI** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Nodi problem gyda chymorth gan berson priodol a nodi ffyrdd gwahanol o fynd i'r afael â hi. | Darparu gwybodaeth i helpu i nodi problem gan ddisgrifio ei phrif nodweddion yn gywir.<br><br>Nodi sut y byddant yn gwybod bod y broblem wedi cael ei datrys.<br><br>Canfod ffyrdd gwahanol o ddelio â'r broblem. | Cofnod o drafodaeth rhwng yr ymgeisydd a pherson priodol arall. Disgrifiad manwl o brif nodweddion y broblem. Datganiad ymgeisydd yn disgrifio'r canlyniad(au) dymunol yn fanwl.<br><br>Datganiad ymgeisydd yn dangos yn glir eu bod wedi ystyried o leiaf **ddau** ddull gwahanol i fynd i'r afael â'r broblem e.e. amrywiaeth o ddulliau gweledol, rhifyddol a chorfforol a mapio meddwl, gofyn i eraill ynghylch problemau tebyg, drwy arbrofi, drwy astudio, drwy ddynwared. | Gall ymgeiswyr nodi problem a'i datrys drwy weithio mewn pâr/grŵp ar thema sydd o ddiddordeb iddynt hwy. |

| **DP2.2 CYNLLUN A RHOI CYNNIG AR O LEIAF UN FFORDD O DDATRYS Y BROBLEM** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Cynllunio a rhoi cynnig ar o leiaf un ffordd o ddatrys y broblem. | Cadarnhau gyda pherson priodol sut y byddant yn ceisio datrys y broblem.<br><br>Cynllunio'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud, gan nodi'r dulliau a'r adnoddau y byddant yn eu defnyddio.<br><br>Defnyddio eu cynllun yn effeithiol, gan gael cefnogaeth a diwygio eu cynllun pan fydd angen i fynd i'r afael â'r broblem. | Cofnod o drafodaeth gyda pherson priodol wedi'i lofnodi.<br><br>Cynllun gweithredu manwl ymgeisydd. Cofnod neu lyfr gwaith wedi'i ddilysu. Gall gael ei gadarnhau gan unrhyw un mewn awdurdod sydd wedi arsylwi ar yr ymgeisydd yn y gwaith. Datganiad gan drydydd parti yn cyfeirio at unrhyw gefnogaeth a gynigiwyd ac a gymerwyd.<br><br>Anodiadau ar y cynllun sy'n dangos pryd a pham roedd diwygiadau'n angenrheidiol a pha newidiadau a wnaed. | Gall ymgeiswyr gynllunio gwaith a phenderfynu'n annibynnol drwy gyd-wethio ag eraill a datrys y broblem. |

| **DP2.3 GWIRIO A YW'R BROBLEM WEDI CAEL EI DATRYS A NODI FFYRDD O WELLA EU SGILIAU DATRYS PROBLEMAU** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Rhaid i'r dystiolaeth ddangos y gall ymgeiswyr:** | **Enghreifftiau o dystiolaeth:** | **Cyd-destun a awgrymir:** |
| Gwirio a yw'r broblem wedi cael ei datrys a nodi ffyrdd o wella sgiliau datrys problemau. | Gwirio a yw'r broblem wedi cael ei datrys drwy ddefnyddio'r dulliau a roddwyd iddynt gywir.<br><br>Disgrifio'r canlyniadau'n glir, gan gynnwys cryfderau a gwendidau sut yr aethant i'r afael â'r broblem.<br><br>Nodi ffyrdd o wella eu sgiliau datrys problemau. | Cofnod ymgeisydd yn dangos beth a wiriwyd a pha ddull a ddefnyddiwyd yn fanwl.<br><br>Cofnod manwl o'r canlyniadau gan yr ymgeisydd.<br><br>Dadansoddiad cryno gan yr ymgeisydd o gryfderau a gwendidau sut yr aed i'r afael â'r broblem. Cofnod o gwestiynu adborth yr aseswr.<br><br>Cofnod yr ymgeisydd o'r broses wirio ac adborth yr aseswr. | Gall ymgesiwyr ddadansoddi'r gwaith a gyflawnwyd a phenderfynu sut mae modd gwella'r gwaith. |